Llefodd Iesu â llef uchel, “O Dad, i’th ddwylo di yr wyf yn cyflwyno fy ysbryd.”
(Luc 23:46)

Dyma’r olaf o saith ymadrodd Iesu ar y groes. Roedd y cyntaf yn dangos ymddiriedaeth lwyr yn y Tad wrth iddo weddïo am faddeuant i’w elynion, ac mae’r olaf yn dangos bod ei olwg yn dal ar ei Dad nefol, a’i fod yn cyflwyno ei ysbryd i fod wrth ei ymyl, yn agos ato.

Y gri

Fel Meseia, roedd Iesu’n cyflawni llawer o Ysgrythurau’r Hen Destament yn ei ddyfodiad cyntaf ac yn aberth y groes, a bydd yn cyflawni’r holl broffwydoliaethau yn ei ailddyfodiad hefyd. Mae’n amlwg ei fod yn ymwybodol o hyn tra’i fod ar y groes, gan ei fod yn dyfynnu cymaint o adnodau. Nid yn unig hynny, mae’n esiampl i ni sylwi ar faint o’r Ysgrythur sydd ar wefusau’r Gwaredwr. Beth allai fod yn well na marw gan ddyfynnu Gair Duw?

Yma eto mae’n dyfynnu o Salm 31.5. Mae’r geiriau yn dangos natur wirfoddol marwolaeth Crist. Colli bywyd mae pawb arall, ond roedd ef yn rhoi ei einioes o’i fodd. **“Nid yw neb yn ei dwyn oddi arnaf, ond myfi ohonof fy hun sy’n ei rhoi.Y mae gennyf hawl i’w rhoi, ac y mae gennyf hawl i’w derbyn eilwaith”** (Ioan 10:18). Ei aberth gwirfoddol ef oedd yr unig ffordd i fodloni cyfiawnder Duw ac achub dyn. Mae’r llef uchel yn cadarnhau’r ffaith fod Iesu yn gwneud hyn o’i wirfodd ac yn ddigymell.

Mae rhai wedi awgrymu bod Duw y Tad yn greulon yn cosbi ei Fab fel hyn ar y groes. Mae hynny’n dangos camddealltwriaeth lwyr o ran Crist, y Mab, yn hyn. Mae cymaint o gyfeiriadau at y ffaith mai Gwaredwr boddlon ac ewyllysgar sydd gennym. Sut allem fwynhau’r iachawdwriaeth o feddwl bod ein Prynwr wedi’n prynu ag agwedd Cardi? Oni ddaeth Mab y Dyn i wasanaethu ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer? (Math.20.28). Onid oedd y Bugail Da yn rhoi ei einioes dros y defaid am fod ganddo gymaint o ofal drostynt (Ioan 10.11)?

fe ddaeth o’r nef o’i fodd,
cymerodd agwedd gwas;
ffrwyth y cyfamod hedd:
O ryfedd ras! *(Pedr Fardd)*

Y Tad

Mae Iesu’n ychwanegu’r geiriau ‘O Dad’ at eiriau Dafydd. Mae’n dangos bod ei holl fywyd, ei holl weinidogaeth, ei holl genhadaeth wedi eu cyflawni gyda

golwg ar blesio'r Tad nefol: **"Fy mwyd i yw gwneud ewyllys yr hwn a'm hanfonodd, a gorffen y gwaith a roddodd i mi"** (Ioan 4:34) ac eto: **"Y mae'n rhaid i mi gyflawni gweithredoedd yr hwn a'm hanfonodd i tra mae hi'n ddyd."** (Ioan 9:4).

Yna mae Iesu'n gadael allan y geiriau sydd yn dilyn ei ddyfyniad, "**gwaredaist fi",** am na chafodd ef ei wared na'i arbed rhag tywyllwch eithaf uffern ar y groes. Wynebodd ef y cyfan er mwyn ein harbed ni.

Y tangnefedd

Mae yngan geiriau fel hyn yn hyderus yn dangos tangnefedd rhyfeddol ym meddwl a chalon Iesu wrth i'w enaid adael y fuchedd hon. Mae hyn yn awgrymu'n gryf ei fod yn gwybod erbyn hyn ei fod wedi cyflawni'r gwaith a roes y Tad iddo.

Y canwriad

Mae'n werth nodi ymateb y canwriad yn yr adnod nesaf. Roedd wedi arsylwi ar ymddygiad Iesu trwy gydol y dirmyg a'r gwawd a'r boen annioddefol. Nawr mae wedi ildio'i fywyd yn wirfoddol i ofal y Tad â gwaedd uchel, hyderus. Ni allai neb a glywsai'r llef yna fyth ei hanghofio. Nid Iddew oedd y canwriad, mae'n siŵr, ac efallai nad oedd ei galon mor galed â chalonnau cyd-genedl y Gwaredwr. Hefyd gwelodd fyd natur yn ymateb i'w aberth trwy dywyllwch, daeargryn, creigiau'n hollti, a'r beddau'n agor.

Mae'n gogoneddu Duw trwy addef mai dyn cyfiawn oedd Iesu. Mae Mathew a Marc yn cofnodi iddo ddweud mai Mab Duw oedd Iesu. Mae'r ddwy fersiwn yn cyd-fynd â'i gilydd. Gan fod Iesu'n ddyn cyfiawn, gan nad oedd bai arno o gwbl, gallai fynd yn bellach, a chredu ei fod yn Fab Duw.

Y Cristion

Mae'n ryfeddod i feddwl bod Crist yn ein caru gymaint nes iddo dywallt ei fywyd trosom. Mae'n gysur mawr i feddwl ei fod yn gosod bywyd ac ysbryd ei bobl yng ngofal y Tad, gan ei fod ef yn eu cynrychioli.

Mae hyder Iesu wrth farw hefyd wedi rhoi patrwm i'r Cristion i'w ddilyn. Os yw'n ymwybodol ei fod yn gwneud ewyllys Duw yn ei fywyd, gall farw'n dawel pan ddaw'r amser iddo ymadael. Dyma welwn yn hanes Steffan yn Actau 7.59: **"Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd."**